# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 3 Mehefin 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(201)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu (60 munud)**

**Dogfennau Ategol**
Rhaglen Lywodraethu - Adroddiad Cynnydd Cryno Mehefin 2014
Rhaglen Lywodraethu - Data
Diweddariad ar weithredu'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu
Adroddiad ar les pobl a chymunedau Cymru

**4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Wyddoniaeth Cymru (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**
Gwyddoniaeth i Gymru
Arloesi Cymru
Adroddiad Elsevier – Cymhariaeth Ryngwladol o Berfformiad Sylfaen Ymchwil Cymru 2013' *(Saesneg yn unig)*

**5 Dadl: Gwella Gofal Sylfaenol a Chymunedol (60 munud)**
**NDM5515 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella a pharhau i integreiddio gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cyllid ychwanegol y cytunwyd arno gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol yng nghyllideb 2014/15.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi pleidleisio yn erbyn gwelliannau i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a fyddai wedi rhoi terfyn ar yr arfer rheolaidd o slotiau gofal 15 munud ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i roi terfyn ar yr arfer hwn.

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pryderon Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu ynghylch yr angen am fuddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau gofal sylfaenol, sef yr hyn a nodir yn eu hymgyrch Patients First: Back General Practice.

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella trefniadau cynllunio'r gweithlu gofal sylfaenol ac i weithredu ar frys i roi sylw i'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio meddygon teulu ledled Cymru.

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith y bydd toriadau termau real Llywodraeth Cymru i gyllideb y GIG yn ei gwneud yn fwy anodd sicrhau gwelliannau ac integreiddio gofal sylfaenol, gofal yn y gymuned a gofal cymdeithasol ymhellach yng Nghymru.

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod mwy a mwy o feddygon teulu yn nesáu at oed ymddeol, yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ac yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu cynllun clir i gael meddygon teulu newydd yn eu lle.

**6 Dadl: Llywodraethu Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru (60 munud)**
**NDM5516 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod gwerth presennol a gwerth posibl tirweddau dynodedig Cymru i

amgylchedd, economi, iechyd, lles ac ansawdd bywyd pobl Cymru.

2. Yn nodi’r adolygiad sydd yn yr arfaeth o drefniadau llywodraethu ar gyfer tirweddau dynodedig yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn dathlu cyfraniad tri pharc cenedlaethol Cymru at ein treftadaeth ac yn cefnogi'r rôl y maent yn parhau i'w chwarae yn hybu hunaniaeth unigryw Cymru.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn credu y byddai mwy o atebolrwydd democrataidd yn arwain at wella’r modd y mae’r parciau cenedlaethol yn cael eu llywodraethu ac yn gwella’r berthynas rhwng awdurdodau’r parciau a’r trefi a’r cymunedau sydd o fewn eu ffiniau.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi’r argymhellion yn ymwneud â pharciau cenedlaethol yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn credu bod angen rhoi pecyn cynhwysfawr o ddiwygiadau ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Mae adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ar gael yn:

http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/psgd/140120-psgd-full-report-cyv2.pdf

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 4 Mehefin 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 29 Mai 2014 i'w hateb ar 3 Mehefin 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)1699(FM)

2. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o adroddiad Sefydliad yr RAC am gyfraddau damweiniau ymysg gyrwyr ifanc? OAQ(4)1691(FM)

3. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithlu Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1683(FM)

4. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru? OAQ(4)1687(FM)

5. **Julie James (Gorllewin Abertawe):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i warchod a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1686(FM)

6. **Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o berfformiad y sector adeiladu yng Nghymru? OAQ(4)1695(FM)

**7. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pryd y bydd y Prif Weinidog yn cael ei gyfarfod nesaf â Phrif Weinidog yr Alban? OAQ(4)1682(FM)**W**

**8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(4)1684(FM)

**9. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fanteision aros yn rhan o'r UE i Gymru? OAQ(4)1689(FM)

**10. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am uwchgynhadledd NATO sy'n dod i Gymru eleni? OAQ(4)1690(FM)

**11. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)1696(FM)

**12. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Gronfa Cymorth Dewisol? OAQ(4)1688(FM)

**13. Sandy Mewies (Delyn):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud ynghylch a oes modd i'r dreth ystafell wely gael effaith gadarnhaol ar strategaeth i leihau tlodi plant? OAQ(4)1698(FM)

**14. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Beth arall y gall y Prif Weinidog ei wneud i gael pob hil i fyw'n gytûn yng Nghymru? OAQ(4)1694(FM)

**15. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiau diwygio lles yn Nhorfaen? OAQ(4)1697(FM) **TYNNWYD YNOL**

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendau'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn cyfarfod, ac mae modd eu gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 10 Mehefin 2014 a dydd Mercher 11 Mehefin 2014**
**Dydd Mawrth 17 Mehefin 2014 a dydd Mercher 18 Mehefin 2014**
**Dydd Mawrth 24 Mehefin 2014 a dydd Mercher 25 Mehefin 2014**
*************************************************************************

**Dydd Mawrth 10 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Rôl Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid wrth Fynd i'r Afael â'r Agenda Trechu Tlodi (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Mynd i'r Afael â Thlodi Tanwydd drwy Effeithlonrwydd Ynni (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Model Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol (45 munud)
- Dadl: Gwella Iechyd Meddwl (60 munud)

**Dydd Mercher 11 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Araith y Frenhines (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 17 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Dyfodol Glastir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig (45 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Twristiaeth (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi: Cyflawni Teuluoedd yn Gyntaf (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Creu'r amodau ar gyfer twf gwyrdd (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Tai (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 18 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Mynwy) (30 munud)

**Dydd Mawrth 24 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2014 (30 munud)

- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Ymateb i Adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Dadreoleiddio mewn perthynas â gwelliannau i'r Bil mewn perthynas â Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, Deddf Bridio Cŵn 1973 a Deddf Bridio a Gwrthu Cŵn (Lles) 1999 (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Tai (Cymru) (180 munud)
  Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.

**Dydd Mercher 25 Mehefin 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Andrew RT Davies (Canol De Cymru) (30 munud)